

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
25/10/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau am Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Local Government to the Finance Minister

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Questions to the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills

Cwestiynau am Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Local Government to the Finance Minister

Rhaglenni Datblygu Chwaraeon Cymunedol
Community Sports Development Programmes

Q8 Laura Anne Jones: How is the Minister working with the Welsh Local Government Association to ensure that community sports development programmes are sustainable? OAQ0928(LGP) *Transferred for written answer by the Minister for Culture, Welsh Language and Sport.*

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): I have met with the Welsh Local Government Association to discuss sport and physical activity policy and the important role that local government is playing in delivering 'Climbing Higher'. The additional investment through 'Climbing Higher—Next Steps' will be used to increase sport and physical activity opportunities in local communities throughout Wales.

Atebwyd cwestiwn 9, OAQ0926(LGP), yn y Cyfarfod Llawn.
Question 9, OAQ0926(LGP), was answered in Plenary.

Cynllunio Gofodol
Spatial Planning

Q10 Irene James: What discussions has the **C10 Irene James:** Pa drafodaethau mae'r

Minister had with Cabinet colleagues about the effect of spatial planning across Welsh Assembly Government portfolios? OAQ0904(LGP)

Gweinidog wedi'u cael gyda'i chyd-Weinidogion am effaith cynllunio gofodol ar draws portffolios Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0904(LGP)

The Finance Minister (Sue Essex): In Cabinet, and in the Cabinet sub-committee on sustainable development and the spatial plan, we use the spatial plan as a policy integration mechanism across all our portfolios, including for our budget planning. Examples include how the spatial plan is informing future structural funds programmes and how transport policy is linked into spatial plan work.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Yn y Cabinet, ac yn is-bwyllgor y Cabinet ar ddatblygu cynaliadwy a'r cynllun gofodol, yr ydym yn defnyddio'r cynllun gofodol fel dull integreiddio polisi drwy ein holl bortffolios, gan gynnwys ar gyfer ein cynllunio cyllideb. Mae enghreifftiau yn cynnwys sut mae'r cynllun gofodol yn cyfeirio rhaglenni cronfeydd strwythurol y dyfodol a sut mae'r polisi trafnidiaeth yn gysylltiedig â gwaith y cynllun gofodol.

Achos Cumbria o ran Tâl Cyfartal The Cumbria Case on Equal Pay

sQ11 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on the impact of the Cumbria case on equal pay in local authorities in Wales? OAQ0923(LGP)

C11 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith achos Cumbria ar dâl cyfartal mewn awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ0923(LGP)

Sue Essex: I am following developments in other parts of the UK so that we can consider any potential implications in Wales. I have also had discussions with the UK Government to have a common understanding of the issues. However, compliance with equal-pay legislation is ultimately a matter for each authority.

Sue Essex: Yr wyf yn dilyn datblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU fel y gallwn ystyried unrhyw oblygiadau posibl yng Nghymru. Yr wyf hefyd wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU er mwyn cael dealltwriaeth gyffredin am y materion dan sylw. Fodd bynnag, mae cydymffurfio gyda deddfwriaeth cyflog cyfartal yn y pen draw yn fater i bob awdurdod unigol.

Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus The Delivery of Public Services

Q12 Helen Mary Jones: What recent discussions has the Minister had with local government in Mid and West Wales regarding the delivery of public services? OAQ0936(LGP)

C12 Helen Mary Jones: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda llywodraeth leol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch darparu gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0936(LGP)

Sue Essex: Christine Chapman and I visited local authorities in Wales over the summer, including those in Mid and West Wales, and discussed service delivery. We discussed a range of issues, including local authority performance and progress with their policy agreements.

Sue Essex: Fe ymwelais i a Christine Chapman ag awdurdodau lleol yng Nghymru dros yr haf, gan gynnwys y rhai yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, a thrafod darparu gwasanaeth. Buom yn trafod amrywiol faterion, gan gynnwys perfformiad awdurdodau lleol a chynnydd gyda'u cytundebau polisi.

Cyfranogiad Gwleidyddol Political Engagement

Q13 Ann Jones: Will the Minister make a statement about how Welsh local authorities can effectively promote wider political engagement? OAQ0918(LGP)

Sue Essex: The recent local democracy conference explored key issues around local democracy and engagement ahead of the 2008 elections. Local authorities have an important part to play in raising awareness of the role and value of elected members, assisting in offering shadowing and mentoring opportunities and providing information for potential candidates.

C13 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gall awdurdodau lleol Cymru hyrwyddo cyfranogiad gwleidyddol ehangach yn effeithiol? OAQ0918(LGP)

Sue Essex: Yr oedd y gynhadledd ddiweddar ar ddemocratiaeth leol yn ymchwilio i faterion democratiaeth leol a chyfranogiad cyn etholiadau 2008. Mae gan awdurdodau lleol ran bwysig i'w chwarae i gynyddu ymwybyddiaeth am rôl a gwerth aelodau etholedig, cynorthwyo i gynnig cyfleoedd cysgodi a mentora a darparu gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr posibl.

Blaenoriaethau Cyllideb Budget Priorities

Q14 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's budget priorities for public services in Mid and West Wales? OAQ0943(LGP)

Sue Essex: We are committed to delivering high quality, effective public services to the people of Wales, regardless of where they live.

C14 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ0943(LGP)

Sue Essex: Yr ydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol o ansawdd da i bobl Cymru, ble bynnag maent yn byw.

Effaith Arbedion Effeithlonrwydd The Impact of Efficiency Savings

C15 Ieuan Wyn Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith arbedion effeithlonrwydd ar gyllidebau craidd awdurdodau lleol? OAQ0933(LGP)

Sue Essex: Welsh local government, in common with the rest of the Welsh public sector, has been set a 1 per cent annual efficiency gain target, thus contributing to the overall target of achieving £600 million of efficiency gains across the public sector by 2010.

Q15 Ieuan Wyn Jones: Will the Minister make a statement on the impact of efficiency savings on the core budgets of local authorities? OAQ0933(LGP)

Sue Essex: Mae llywodraeth leol yng Nghymru, fel gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru, wedi cael targed effeithlonrwydd blynyddol o 1 y cant, i gyfrannu at y targed cyffredinol o gyflawni £600 miliwn o enillion effeithlonrwydd drwy'r sector cyhoeddus erbyn 2010.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills

Y Wlad sy'n Dysgu 2 The Learning Country 2

Q10 Christine Gwyther: Will the Minister

C10 Christine Gwyther: A wnaiff y

make a statement on 'The Learning Country 2'? OAQ1083(ELL)

Gweinidog ddatganiad am 'Y Wlad sy'n Dysgu 2'? OAQ1083(ELL)

The Minister for Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Davidson): I will be publishing 'The Learning Country: Vision into Action' tomorrow, 26 October. Our strategy will build on the huge achievements of the last six years. We will outline a programme of action through to 2010 to complete the implementation of our Learning Country agenda.

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson): Byddaf yn cyhoeddi 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' yfory, Hydref 26. Bydd ein strategaeth yn adeiladu ar gyraeddiadau enfawr y chwe blynedd diwethaf. Byddwn yn amlinellu rhaglen weithredu hyd at 2010 i gwblhau gweithredu ein hagenda Y Wlad sy'n Dysgu.

Darpariaeth Addysg Gorfforol The Provision of Physical Education

Q11 Jocelyn Davies: Will the Minister make a statement on the provision of physical education in schools? OAQ1041(ELL)

C11 Jocelyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg gorfforol mewn ysgolion? OAQ1041(ELL)

Jane Davidson: Physical education is an integral part of the national curriculum for all young people in school. PE provides opportunities for pupils to participate in a range of sports and improve their health and physical fitness. In 2006-07, £1.9 million has been provided to support the Assembly's PE and school sport action plan.

Jane Davidson: Mae addysg gorfforol yn rhan annatod o'r cwricwlwm cenedlaethol i'n holl bobl ifanc yn yr ysgol. Mae addysg gorfforol yn rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwahanol chwaraeon i wella eu hiechyd a'u ffitrwydd corfforol. Yn 2006-07, mae £1.9 miliwn wedi'i ddarparu i gefnogi cynllun gweithredu'r Cynulliad ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion.

Cyllid ar gyfer Disgyblion nad yw Saesneg yn Iaith Gyntaf Iddynt Funding for Pupils whose First Language is not English

Q12 Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on funding for pupils whose first language is not English? OAQ1071(ELL)

C12 Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer disgyblion nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt? OAQ1071(ELL)

Jane Davidson: The Welsh Assembly Government's ethnic minority achievement grant, worth £5 million in 2006-07, improves the equality of opportunity for all minority ethnic pupils, particularly those for whom English is an additional language. In addition, our asylum seekers' grant, worth £2.4 million this year, supports language skills education for asylum-seeker children.

Jane Davidson: Mae grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig Llywodraeth Cynulliad Cymru, gwerth £5 miliwn yn 2006-07, yn gwella cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig, yn arbennig y rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Hefyd, mae ein grant i geiswyr lloches, gwerth £2.4 miliwn eleni, yn cynorthwyo addysg sgiliau iaith ar gyfer plant sy'n geiswyr lloches.

Dulliau Gweithredu Aml-asiantaeth Multi-agency Approaches

Q13 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on multi-agency approaches in

C13 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddulliau gweithredu aml-

special educational needs? OAQ1060(ELL)

asiantaeth ym maes anghenion addysgol arbennig? OAQ1060(ELL)

Jane Davidson: Many children and young people with special educational needs require support and provision from more than one agency. The national service framework for children, young people and maternity services, the SEN code of practice for Wales and the Children Act 2004 all promote a multi-agency approach to meeting their additional needs.

Jane Davidson: Mae ar lawer o blant a phobl ifanc a chanddynt anghenion addysgol arbennig angen cefnogaeth a darpariaeth gan fwy nag un asiantaeth. Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant, pobl ifanc a'r gwasanaethau mamolaeth, y côd ymarfer AAA ar gyfer Cymru a Deddf Plant 2004 oll yn hybu dull gweithredu aml-asiantaeth ar gyfer diwallu eu hanghenion ychwanegol.

Lleoedd Dros Ben mewn Ysgolion Surplus School Places

Q14 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on the methods used to calculate surplus school places in Wales? OAQ1066(ELL)

C14 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dulliau a ddefnyddir i gyfrifo nifer y lleoedd sydd dros ben mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ1066(ELL)

Jane Davidson: Surplus places figures produced by LEAs compare the number of pupils on roll at a school with its capacity, as calculated by the more open enrolment method. This method of calculation will be replaced by a revised formula which will apply throughout Wales by the school year 2009-10.

Jane Davidson: Mae ffigurau lleoedd dros ben a gynhyrchwyd gan awdurdodau addysg lleol yn cymharu nifer y disgyblion sydd ar restr ysgol gyda'i maint, fel y cafodd ei gyfrif gan y dull cofrestru mwy agored. Bydd fformiwla ddiwygiedig a fydd yn berthnasol drwy Gymru erbyn y flwyddyn addysgol 2009-10 yn cymryd lle'r dull cyfrif hwn.

Gwella Safonau Addysg Improving Education Standards

Q15 Irene James: Will the Minister make a statement about her priorities for improving education standards in Wales? OAQ1053(ELL)

C15 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer gwella safonau addysg yng Nghymru? OAQ1053(ELL)

Jane Davidson: My priority is to build on the range of initiatives that are already bringing about positive results and improved standards in Wales. I shall be publishing 'The Learning Country: Vision into Action' tomorrow, which will set out our programme of action to 2010.

Jane Davidson: Fy mlaenoriaeth yw adeiladu ar gyfres o fentrau sydd eisoes yn dod â chanlyniadau cadarnhaol a gwell safonau yng Nghymru. Byddaf yn cyhoeddi 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' yfory, a fydd yn nodi ein rhaglen weithredu hyd at 2010.